Cyngor Bwrdeisdref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | **Rheolwr Tîm - SEWAS** |
| **Lleoliad:** | **Gweithio Ystwyth / Ystâd Parc Mamhilad, Pont-y-pŵl** |
| **Cyfarwyddiaeth:** | **Gwasanaethau Cymdeithasol** |
| **Rhif Cyf/Rhif y Swydd:** | **BG03486** |
| **Cyflog:** | **Gradd 11 (£52,805- £56,085 y flwyddyn)** |
| **Oriau:** | **37 awr yr wythnos** |

## Crynodeb Swydd

Mae'r Rheolwr Tîm - SEWAS yn gyfrifol am ddarparu rheolaeth tîm effeithlon ac effeithiol ac arwain ar ddarparu gwasanaeth mabwysiadu hyblyg, ymatebol ac o ansawdd uchel.

## Hysbyseb Lawn

Mae Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru (SEWAS) angen Rheolwr Tîm sy'n ymroddedig i sicrhau cynnal a datblygu'r gwasanaeth yn unol â gofynion statudol, arweiniad, Safonau Isafswm Cenedlaethol a pholisïau a gweithdrefnau'r awdurdodau sy'n cymryd rhan.

Fel Rheolwr Tîm byddwch yn cefnogi ac yn datblygu polisïau a gweithdrefnau, y tîm mabwysiadu a pherthnasoedd ag asiantaethau allweddol i wella'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd. Bydd hyn yn cynnwys adolygiadau gwasanaeth, recriwtio a rheoli staff a hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r hyn y mae'r gwasanaeth yn ei ddarparu.

Bydd cymhwyster Gwaith Cymdeithasol cydnabyddedig, Cymhwyster Rheoli neu weithio tuag ato (NVQ 4 neu gyfwerth) a chofrestriad gyda Chyngor Gofal Cymru yn hanfodol, ynghyd â phrofiad o weithio mewn lleoliad gwasanaethau plant. Mae gofynion eraill yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, sgiliau rheoli tîm cryf, y gallu i gadeirio cyfarfodydd cymhleth a gwybodaeth am ddeddfwriaeth, rheoleiddio a chanllawiau mabwysiadu a gofal plant.

Mae angen cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru dan gategori Rheolwyr Gofal Cymdeithasol/Gweithwyr Cymdeithasol ar gyfer y swydd hon a bydd angen cofrestru cyn dechrau yn y swydd. Mae gwybodaeth ar sut i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar gael ar y wefan ddilynol https://socialcare.wales

**Gwneir sgrinio cyn-gyflogaeth drylwyr yn ystod y broses recriwtio. Bydd yn ofynnol i ddeiliad y swydd gwblhau cais am Ddatgeliad o Gofnod Troseddol.**

**Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch Ffurflen Gais Swyddi Cymraeg.**

**Ar gyfer gwybodaeth am ail-gysylltu cyn-weithwyr, gweler Polisi Cyflog y Cyngor**

**Dyddiad Cau: 21.11.24**